

Number: WG36099



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## **Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ar bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion**

Dyddiad cyhoeddi: 29 Tachwedd 2018  
Camau gofynnol: Ymatebion erbyn 21 Chwefror 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.  
This document is also available in Welsh.

# Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ar bolisiau gwsg ysgol ac edrychiad disgyblion

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ar y canllawiau statudol drafft i gyrff llywodraethu ysgolion ar bolisiau gwsg ysgol ac edrychiad disgyblion.

## Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i gyrraedd y cyfeiriad isod erbyn **21 Chwefror 2019** fan bellaf.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig


**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Gellir gweld dogfennau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru [llyw.cymru/ymgyngoriadau](http://llyw.cymru/ymgyngoriadau)

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
e-bost: [schoolfundingmailbox@llyw.cymru](mailto:schoolfundingmailbox@llyw.cymru)

 @LIC\_Addysg

 Facebook/AddysgCymru

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Ynglŷn â beth mae'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn casglu safbwyntiau ar ganllawiau statudol drafft Llywodraeth Cymru i gyrff llywodraethu ysgolion ar bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Bydd pob ymateb yn cael ei ystyried. Bydd adroddiad cryno o ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad.

## Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd

Nid oes deddfwriaeth addysg yng Nghymru sy'n cwmpasu gwisgo gwisg ysgol. Mae Adran 21 o Ddeddf Addysg 2002 yn nodi mai corff llywodraethu'r ysgol ddylai bennu ymddygiad ysgol a gynhelir. Mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu gynnal yr ysgol gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o ran cyflawniadau addysgol a gallai hyn gynnwys rhoi polisi gwisg ysgol ar waith a allai hyrwyddo disgyblaeth mewn ysgolion a sicrhau bod disgyblion yn gwisgo'n briodol ar gyfer gweithgareddau dysgu.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog ysgolion yn frwd i roi polisi gwisg ysgol ar waith gan fod cymaint o fanteision o wneud hynny. Wrth gyflwyno polisi gwisg ysgol newydd neu ystyried newidiadau mewn gofynion gwisg ysgol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff llywodraethu ystyried materion cydraddoldeb, pa mor hawdd yw cael gafael ar wisgoedd a goblygiadau cost i deuluoedd ac ymgynghori'n eang â rhieni, disgyblion a grwpiau eraill ar bolisi gwisg ysgol newydd/diwygiedig.

Lle bo'r corff llywodraethu wedi cyflwyno polisi gwisg ysgol a/neu reolau ynghylch edrychiad disgyblion, y pennaeth fydd yn gyfrifol am sicrhau y cedwir atynt fel rhan o'i gyfrifoldebau cyffredinol o redeg yr ysgol a sicrhau disgyblaeth o ddydd i ddydd.

Mae gan Lywodraeth Cymru ganllawiau i ysgolion a chyrrff llywodraethu ar bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://beta.llyw.cymru/polisiau-gwisg-ysgol-ac-edrychiad-disgyblion-canllawiau-ar-gyfer-cyrrff-llywodraethu>

Er bod disgwyl i gyrff llywodraethu ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno neu adolygu eu polisi gwisg ysgol, mae'n anstatudol ac nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i'w gorfodi. Mae penderfyniadau sy'n gysylltiedig â gwisg ysgol i'w gwneud, a hynny'n briodol, gan ysgolion a chyrrff llywodraethu. Os nad yw rhieni'n fodlon â'r wisg ysgol sydd ar gael neu'r gost o brynu'r wisg gan gyflenwr penodol, gallant godi'r pryder hwn gyda'r corff llywodraethu.

## Pam ein bod yn cynnig newid

Mae Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, wedi penderfynu gwneud y canllawiau yn rhai statudol wrth geisio rhoi gwell cefnogaeth i gyrff llywodraethu wneud eu penderfyniadau ar fynediad, fforddiadwyedd a hyblygrwydd. Mae'r canllawiau presennol hefyd yn cael eu diweddarau gan eu bod wedi'u cyhoeddi yn 2011 ac mae rhywfaint o'r wybodaeth ffeithiol wedi dyddio. Bydd newidiadau i'r canllawiau hyn yn dod i rym ym mis Medi 2019.

Mae'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol wedi'i gynnwys yn adran 88 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ac adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Er y caiff Gweinidogion Cymru ond cyhoeddi canllawiau statudol i'r corff llywodraethu o dan adran 88 o Ddeddf 2006, byddai angen i'r corff llywodraethu nodi'r egwyddorion a byddai'n rhaid

iddynt ystyried unrhyw ganllawiau statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 88 Deddf 2006.

### **Yr hyn rydym yn ei gynnig**

- Mae angen i gyrff llywodraethu ysgolion ystyried fforddiadwyedd wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.
- Mae angen i gyrff llywodraethu ysgolion ystyried argaeledd eitemau gwisg ysgol a mynediad atynt wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.
- Ni ddylai polisïau gwisg ysgol wahaniaethu rhwng gwahanol eitemau o ddillad ar sail rhyw neu rywedd.
- Mae angen i bolisïau gwisg ysgol fod yn hyblyg ac ystyried tywydd eithafol.

### **Pa ganlyniadau a ddisgwyliwn**

- Cyfrifoldeb cyrff llywodraethu ysgolion fydd polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.
- Bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ystyried fforddiadwyedd wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.
- Bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ystyried argaeledd eitemau gwisg ysgol a mynediad atynt wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.
- Bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ystyried y canllawiau sy'n nodi na ddylai polisïau gwisg ysgol wahaniaethu rhwng gwahanol eitemau o ddillad ar sail rhyw neu rywedd wrth lunio eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.
- Bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn nodi'n glir eu hagwedd at amrywio eitemau gwisg ysgol yn sgil amodau tywydd eithafol wrth lunio eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.
- Bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ystyried canllawiau statudol newydd Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno neu adolygu eu polisi gwisg ysgol, fodd bynnag, ni fydd gan Lywodraeth Cymru bwerau i'w rhoi gorfodi.